07/04/2026

# Datgeliad data metrigau effaith

## Mesurau perfformiad craidd

Mae Banc Datblygu Cymru yn buddsoddi er mwyn cael effaith. Rydym yn mesur effaith graidd ein buddsoddiadau drwy gyfrolau buddsoddiad uniongyrchol, dylanwad y sector preifat, a chreu a diogelu swyddi. Mae'r tabl isod yn rhoi esboniad o'r fethodoleg amlinellol a ddefnyddir ar gyfer y mesurau hyn, ochr yn ochr â datgeliad pellach ar gyfer data a ddarperir yng nghynllun Corfforaethol Banc Datblygu Cymru 2022/27.

| Crynodeb o'r metrig effaith | Cyfrifiad metrig |
|---|---|
| **Buddsoddiad uniongyrchol** | Cyfanswm y cyllid a fuddsoddwyd yn uniongyrchol gan y Banc Datblygu o'i ystod o gynhyrchion cronfa fusnes. |
| **Nifer y buddsoddiadau** | Nifer y buddsoddiadau a wnaed i fusnesau o fewn blwyddyn ariannol lle cyfrifir y gyfran gyntaf neu'r unig gyfran o unrhyw rownd newydd. |
| **Busnesau a Gefnogir** | Nifer y busnesau unigol gwahanol a gefnogir o fewn blwyddyn ariannol ar draws ystod cynnyrch y Banc Datblygu.<br><br>Dros gyfnod aml-flwyddyn, diffinnir hyn naill ai fel 'agreg' neu 'ar wahân'. Y ffigur 'agreg' yw nifer y busnesau a gefnogir y flwyddyn dros gyfnod aml-flwyddyn, lle gellir cyfrif un busnes sy'n derbyn buddsoddiad mewn blynyddoedd ar wahân fwy nag unwaith. Y ffigur 'ar wahân' yw nifer y busnesau a gefnogir dros gyfnod aml-flwyddyn lle dim ond ar y buddsoddiad cyntaf y cyfrifir busnes sy'n derbyn buddsoddiadau o fwn nifer o flynyddoedd.<br><br>Wrth adrodd ar berfformiad y Gronfa yn unig, cofnodir busnes newydd a gefnogir pan fydd busnes yn derbyn ei fuddsoddiad cyntaf gan bob Cronfa unigol o fewn ystod cynnyrch y Banc Datblygu. |
| **Buddsoddiad y Sector Preifat** | Cyfanswm gros (wedi'i fesur mewn £) buddsoddiadau diriaethol uniongyrchol (cyllid) neu fuddsoddiadau anniriaethol (h.y. eiddo deallusol neu dir sy'n berchnogol) gan y sector preifat, gan gynnwys sefydliadau masnachol, elusennol a dielw, ac unigolion preifat. Nid yw hyn yn cynnwys arian a ddyfernir o'r Loteri Genedlaethol. |
| **Cyd-fuddsoddiad** | Cyd-fuddsoddiad yw cyfanswm gros (wedi'i fesur mewn £) unrhyw fuddsoddiad gan y sector preifat a wneir:<br>- ochr yn ochr â'r buddsoddiad cychwynnol a wneir gan Fanc Datblygu Cymru (BDC) |

| | |
|---|---|
| | - o fewn cyfnod o 9 mis ar ôl y buddsoddiad cychwynnol<br>- unrhyw fuddsoddiad a wneir cyn buddsoddiad Banc Datblygu Cymru, ar yr amod bod rhesymeg glir ar gael—naill ai drwy ei gynnwys yn y papur sancsiynu, yn y ddogfennaeth gyfreithiol neu drwy dystiolaeth arall—fod y buddsoddiad yn rhan o'r un prosiect.<br><br>Caiff manylion cyd-fuddsoddiad eu tynnu o'r wybodaeth a ddatganir gan y cwmni fel rhan o broses cwblhau'r buddsoddiad. |
| **Trosoledd y Sector Preifat** | Bydd trosoledd y sector preifat yn cynnwys cyfanswm y cyd-fuddsoddiad ynghyd â:<br><br>- unrhyw fuddsoddiad ychwanegol gan y sector preifat a godir dros oes tymor y buddsoddiad, ynghyd â dwy flynedd ychwanegol.<br><br>Caiff manylion trosoledd y sector preifat eu cymryd o'r wybodaeth a ddatganir i Fanc Datblygu Cymru drwy'r cyflwyniad rheolaidd o ffurflen effaith buddsoddi gan y busnes. |
| **Swyddi a Gefnogir** | Swyddi a gefnogir yw'r cyfuniad o swyddi a ddiogelwyd a swyddi a grëwyd yn y busnesau yr ydym yn buddsoddi ynddynt.<br><br>Swyddi a ddiogelwyd - Nifer y swyddi parhaol, â thâl, cyfwerth ag amser llawn y mae'r ymgeisydd yn ystyried eu bod mewn perygl o gael eu colli o fewn cyfnod o flwyddyn os na fydd yr ymgeisydd yn llwyddo i gael y buddsoddiad gofynnol.<br><br>Swyddi a grëwyd - Swydd newydd y disgwylir iddi gael ei chreu a pharhau am o leiaf 12 mis o ganlyniad i'r buddsoddiad.<br><br>Ar gyfer Cronfa Benthyciadau Busnes Covid Cymru, mae pob swydd a ddiogelwyd wedi'i hystyried, p'un a ydynt wedi'u diogelu o gronfa arall o'r Banc Datblygu ai peidio, oherwydd natur argyfwng unigryw'r cyllid. |
| **Dechrau** | Busnesau sydd â llai na neu'n hafal i ddwy flynedd o fasnachu. |
| **Micro Gyllid** | Benthyca o £50k a llai. |
| **Cyfalaf Amyneddgar** | Buddsoddiad ecwiti a benthyca gyda thelerau o dros 5 mlynedd. |

| | |
|---|---|
| **Buddsoddiad eiddo** | Buddsoddiad o gronfeydd eiddo pwrpasol Banc Datblygu Cymru - Cronfa Datblygu Eiddo Cymru, Cronfa Safleoedd Segur Cymru, Cronfa Eiddo Masnachol Cymru. |
| **Cronfeydd dan reolaeth** | Cyfanswm y cronfeydd buddsoddi byw a'r holl gronfeydd sydd dan reolaeth portffolio ar hyn o bryd. |
| **Cyfanswm yr Effaith** | Yn cynnwys buddsoddiad uniongyrchol, cyd-fuddsoddiad gan y sector preifat a buddsoddiad a wneir drwy wasanaethau buddsoddi, gan gynnwys Cymorth i Brynu Cymru. |
| **Gwerth Ychwanegol Gros (GYG)** | Mae GYG Net yn seiliedig ar swyddi - Caiff swyddi o ganlyniad i fuddsoddiadau Dyled ac Ecwiti eu disgowntio gan ffactorau ychwanegol i sefydlu swyddi net. Caiff swyddi net eu lluosi â GYG (B) i sefydlu amcangyfrif cyfanswm, uniongyrchol o GYG yn seiliedig ar swyddi ar gyfer buddsoddiadau Dyled ac Ecwiti.<br><br>Cyfrifir GYG (B) fesul swydd drwy rannu'r StatsCymru diweddaraf Cyfanswm GYG (B) ar gyfer pob Adran Sector yng Nghymru yn ôl y Gofrestr Fusnes a'r Arolwg Cyflogaeth cyfatebol diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Data cyflogaeth ar gyfer pob Adran Sector yng Nghymru.<br><br>Yna caiff cyfanswm yr amcangyfrif o'r Gwerth Ychwanegol Gros Uniongyrchol fesul swydd ei luosi â'r Lluosydd Gwerth Ychwanegol Gros Adran Sector cyfatebol o'r SYG. Tablau Dadansoddol Mewnbwn-Allbwn lefel y DU, 2020 (diwydiant yn ôl diwydiant). Mae hyn yn rhoi amcangyfrif GYG net, yn seiliedig ar swyddi, ar gyfer buddsoddiadau Dyled ac Ecwiti.<br><br>Nid yw buddsoddiadau eiddo yn cipio swyddi oherwydd natur y prosiectau a gefnogir. I gyfrifo GYG ar yr un sail â buddsoddiadau Dyled ac Ecwiti, sefydlir amcangyfrif o swyddi.<br><br>Mae'r amcangyfrif swyddi yn deillio o amcangyfrifon y SYG ar gyfer CALl fesul gwariant o £1m yn y sectorau perthnasol, gan ddefnyddio Gwerth Datblygu Gros (GDG) prosiectau newydd a gefnogwyd yn ystod y flwyddyn. Gan na fyddai'r prosiectau hyn wedi mynd rhagddynt heb ein cefnogaeth, ond maent yn cynrychioli dadleoli cyflogaeth o fannau eraill yn y sector, dim ond y ffactor disgownt dadleoli sy'n cael ei gymhwyso.<br><br>Unwaith y bydd yr amcangyfrif swyddi hwn wedi'i sefydlu, cymhwysir y ffactorau disgownt i gael amcangyfrif swyddi net. Yna caiff yr amcangyfrif swyddi net ei luosi â'r GYG perthnasol fesul swydd ar lefel Adran Sector a Lluosydd GYG lefel y DU i gyfrifo amcangyfrif GYG net, yn seiliedig ar swyddi, ar gyfer Buddsoddi mewn Eiddo. |

Gan fod GYG net yn seiliedig ar swyddi ar gyfer buddsoddiad Dyled ac Ecwiti a'r GYG net yn seiliedig ar swyddi ar gyfer Buddsoddi mewn Eiddo yn cael eu cyfrifo ar sail debyg, cânt eu crynhoi wedyn i gynhyrchu GYG Net yn Seiliedig ar Swyddi ar gyfer Banc Datblygu Cymru.

Mae'r fethodoleg hon wedi cael ei hadolygu gan Ysgol Fusnes Caerdydd.

## Casglu data effaith ehangach

Yn 2019 fe wnaethom ddatblygu a gweithredu fframwaith effaith diwygiedig, gan ehangu ein mecanweithiau ar gyfer gwerthuso a mesur effaith, yn unol â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Galwadau i Weithredu yng Nghynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddwyd ein hadroddiad effaith cyntaf yn ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer blwyddyn 2019/20 ond mae datblygu ein model i fesur a rheoli effaith yn brosiect hirdymor yr ydym wedi ymrwymo i'w ddatblygu a'i fireinio ymhellach yn y blynyddoedd i ddod. Ar gyfer tryloywder ein heffaith, mae'r canlynol yn cyhoeddi trosolwg o'r sampl a ddefnyddiwyd a'r fethodoleg ar gyfer coladu ac adrodd ar bob metrig.

## Methodoleg casglu data effaith ehangach

Er mwyn adrodd ar yr effaith a gyflawnir gan fusnesau sy'n derbyn cyllid gan Fanc Datblygu Cymru, gofynnir i gwsmeriaid gwblhau holiadur effaith. Rhaid i bob cwsmer sydd wedi'i leoli yng Nghymru y tu allan i'n portffolio datblygu eiddo sy'n derbyn buddsoddiad newydd gwblhau'r holiadur effaith hwn. Yna anfonir holiaduron effaith at gwsmeriaid bob 12 i 24 mis ar ben-blwydd eu buddsoddiad. Mae'r data a gyflwynir yn olwg sampl o'r flwyddyn gyfredol. Nid yw'n ddadansoddiad hydredol ac nid yw'n gymharol uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol oherwydd bod busnesau sydd wedi'u cynnwys yn y sampl yn newid.

Rydym yn dibynnu ar hunan-adrodd ar gyfer nifer o fesurau, ac mae hyn yn golygu y gallai rhai o'n setiau data fod yn anghyflawn neu fod â gwallau. O ganlyniad, cymerir sampl bob blwyddyn yn seiliedig ar ansawdd data.

Mae data ar gyfer pob metrig yn cael ei gasglu a'i storio yn erbyn gwybodaeth am y buddsoddiad. Mae hyn yn caniatáu inni ddadansoddi'r data a phob metrig yn ôl dyddiad, lleoliad, sector, math o fuddsoddiad a swm. Mae data amrywiaeth a chydraddoldeb, oherwydd ei natur, yn cael ei gasglu a'i adrodd ar wahân i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ac yn dilyn canllawiau gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Banc

07/04/2026

Datblygu Cymru yn defnyddio gwybodaeth bersonol, gweler ein hysbysiad preifatrwydd neu cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data yn sdd@bancdatblygu.cymru.

# Methodolegau metrig dyfodol ffyniannus

| Crynodeb o'r metrig effaith | Cyfrifiad metrig |
|---|---|
| **Maint busnes yn cynyddu** | Rydym yn tracio lefelau Cyfwerth ag Amser Llawn (CALl) ar gyfer busnesau yn y sampl ar bob ffurflen fuddsoddi effaith ac yn eu categoreiddio yn ôl Micro (0-9 CALl), Bach (10-49 CALl) a Chanolig (50-250 CALl). Newid ym maint busnes yw lle mae lefelau CALl busnes yn symud o un categori i'r llall. |
| **Nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn (CALl) yn y bandiau cyflog canolrifol i uchel.** | Cyfrifir cyflog isel a chyflog canolrifol i uchel trwy ddefnyddio proffil NOMIS SYG ar gyfer Cymru ar gyfer cyflog wythnosol gros gweithwyr llawn amser sy'n deillio o ddata enillion wythnosol canolrifol SYG a diffiniad SYG o Gyflog Isel (dwy ran o dair o'r cyflog canolrifol). Mae cyflog canolrifol Cymru a nodir gan SYG yn uwch na'r ffigur dros dro a gynhwysir yng nghyhoeddiad StatsCymru 2021.<br><br>I gymharu ag ystadegau StatsCymru, mae nifer y swyddi cyfwerth a llawn amser sy'n ennill mwy na dwy ran o dair o'r cyflog canolrifol, a ddefnyddiwn fel y bandiau cyflog canolrifol i uchel oherwydd ein cyfrifiad cyfwerth ag amser llawn. |
| **Cynnydd mewn cynhyrchiant a throsiant cyfartalog fesul CALl** | Mae hwn yn ddull sylfaenol iawn o nodi cynhyrchiant ond un y gellir ei wneud gyda gofynion data ychwanegol lleiaf posibl ar ein cwsmeriaid.<br><br>Ar gyfer adroddiad effaith 2023/24, rydym wedi newid y fethodoleg ar gyfer cyfrifo cynnydd cynhyrchiant ar is-sampl o gwmnïau portffolio sydd wedi darparu digon o ddata dros sawl blwyddyn.<br><br>Roedd y fethodoleg flaenorol yn adrodd y newid canrannol cymedrig-cyfartalog mewn trosiant fesul CALl ar gyfer ein sampl effaith. Wrth i feintiau a chyfansoddiad y sampl newid, gall allanolion ystadegol effeithio fwyfwy ar y cyfartaledd cymedrig a adroddwyd o dan y fethodoleg flaenorol.<br><br>O dan y fethodoleg newydd, mae cyfanswm y trosiant a adroddir yn cael ei rannu â chyfanswm y swyddi CALl i roi'r trosiant diweddaraf fesul CALl. Mae hyn yn cael ei gymharu â'r trosiant blaenorol fesul CALl ar gyfer y sampl i roi newid |

canrannol yn hytrach na chyfartaledd fesul busnes. Er mwyn gwella gwirionedd y metrig hwn, mae busnesau sy'n adrodd dim CALl na throsiant yn y naill neu'r llall o'u ffurflenni effaith yn cael eu tynnu o'r sampl.

Isod mae tabl sy'n dangos cymhwysiad hanesyddol y fethodoleg newydd hon o'i gymharu â'r canlyniadau a adroddwyd yn flaenorol.

**Cynnydd mewn cynhyrchiant**

| Blwyddyn | Dull blaenorol (maint y sampl) | Dull newydd (maint y sampl) |
|---|---:|---:|
| 2023/24 | 47% (848) | 10% (646) |
| 2022/23 | 48% (792) | 16% (549) |
| 2021/22 | 46% (330) | 3% (275) |
| 2020/21 | 9% (289) | 5% (257) |

O ganlyniad samplu effaith ar gyfer ein portffolio, gall cynnydd cynhyrchiant busnesau bara dros sawl blwyddyn. Dyma lle gellir adrodd ar y data cyflogaeth a throsiant diweddaraf fwy nag un flwyddyn ar ôl y data blaenorol.

Defnyddir Amcangyfrifon Poblogaeth Busnes SYG ar gyfer y cymharydd ar gyfer cyflogaeth a throsiant busnesau bach a chanolig y flwyddyn er gwaethaf yr amcangyfrifon sy'n cynnwys gweithiwr fel 1 uned yn hytrach na defnyddio cyfrifiad CALl.

| | |
|---|---|
| **Cyfran yr ymatebwyr sy'n allforio a chyfanswm gwerth allforion.** | Caiff allforwyr eu hadnabod gan y cwsmer sy'n adrodd y gyfran o'r trosiant a adroddir sy'n briodol i werthiannau allforio. |

## Methodolegau metrig arloesedd a thechnoleg

| Crynodeb o'r metrig effaith | Cyfrifiad metrig |
|---|---|
| **Cyfran y cwsmeriaid sy'n arloesi'n weithredol yn eu busnes.** | Mae cwsmeriaid yn adrodd nifer y gweithgareddau arloesi a gynhaliwyd yn ystod y 12 mis blaenorol. Diffinnir gweithgaredd arloesi fel prosiectau Ymchwil a Datblygu Cydweithredol; Patentau cofrestredig; Nifer y cynhyrchion |

| | |
|---|---|
| | a gyflwynwyd sy'n newydd i'r cwmni; Nifer y cynhyrchion a gyflwynwyd sy'n newydd i'w marchnad; a Gwelliannau sylweddol.<br><br>Mae cyfran y gweithgaredd yn deillio o gyfanswm lefelau'r gweithgaredd a wneir. |
| **Cyfran y cwsmeriaid sy'n digideiddio eu busnes yn weithredol.** | Mae cwsmeriaid yn adrodd a ydynt wedi defnyddio'r technolegau a ddiffiniwyd i ddigideiddio eu busnesau yn ystod y 12 mis blaenorol. Cafodd y technolegau a ddiffiniwyd eu llywio gan Adroddiad Cyflwr Busnesau Bach Prydain. (2019) ac yn cynnwys Mesurydd Clyfar wedi'i osod; systemau CRM; E-fasnach; Meddalwedd cyfrifyddu ar y we; Meddalwedd dylunio â chymorth cyfrifiadur; awtomeiddio prosesau; Cyfrifiadura Cwmwl; Dysgu peirianyddol; a Deallusrwydd Artiffisial.<br><br>Mae cyfran y gweithgaredd yn deillio o gyfanswm lefelau'r gweithgaredd a wneir. |

## Cymunedau, a methodolegau metrig lle

Ar adeg y buddsoddiad cychwynnol, a dim ond ar adeg y buddsoddiad, mae cwsmeriaid yn cwblhau'r adran Amrywiaeth a Chydraddoldeb o'r holiadur effaith. Mae'r adran hon yn gofyn i gwsmeriaid adrodd nifer y perchnogion/cyfarwyddwyr/cyfranddalwyr sy'n uniaethu fel demograffeg benodol.

Newidiodd ein methodoleg yn 2021/22 i adrodd ar ganlyniadau ym mhob rhan o'r holiadur yn unig. Er enghraifft, cyfrifir cyfran y perchnogion/cyfarwyddwyr/cyfarwyddwyr sy'n cael eu hadrodd fel Ethnigrwydd Lleiafrifol gan gyfanswm nifer y perchnogion/cyfarwyddwyr/cyfarwyddwyr y mae gennym ddata ethnigrwydd ar eu cyfer yn unig.

| Crynodeb o'r metrig effaith | Cyfrifiad metrig |
|---|---|
| **Cyfran y perchnogion/cyfarwyddwyr/cyfarwyddwyr yn y busnesau a gefnogwyd gennym, a ddarparodd ddata rhywedd, a nododd eu bod yn Ferched.** | Mae'r opsiynau sydd wedi'u cynnwys yn yr adran hon yn dilyn y canllawiau a roddir fel rhan o'r gofynion adrodd ar Gronfa Fusnes Cymru. |
| **Cyfran y perchnogion/cyfarwyddwyr/cyfranddalwyr yn y busnesau a gefnogwyd gennym, a ddarparodd ddata ethnigrwydd, a nododd eu bod o Leiafrif Ethnig.** | Mae grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cynnwys pobl a allai wynebu rhwystrau oherwydd eu tarddiad ethnig, wrth gael mynediad at gyfleoedd yng Nghymru. Nid yw cwestiynau am darddiad ethnig yn ymwneud â chenedligrwydd, man |

| | |
|---|---|
| | geni na dinasyddiaeth. Maent yn ymwneud â grwpiau ethnig eang. |
| **Cyfran y perchnogion/cyfarwyddwyr/ cyfranddalwyr yn y busnesau a gefnogwyd gennym, a ddarparodd ddata anabledd, a nodwyd fel rhai ag anabledd hirdymor.** | Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn cydnabod bod pobl anabl yn bobl â namau sy'n cael eu hanablu gan rwystrau (agweddol, amgylcheddol a sefydliadol) sy'n eu hatal rhag cymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar fywyd. Yn syml, nid yr anallu i gerdded sy'n atal person rhag mynd i mewn i adeilad heb gymorth ond bodolaeth grisiau sy'n anhygyrch i ddefnyddiwr cadair olwyn. Mewn geiriau eraill, mae 'anabledd' yn nam cymdeithasol. Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn ei gwneud yn ofynnol i gymdeithas gael gwared ar y rhwystrau er mwyn i bawb gael cydraddoldeb. Mae'r Model hwn yn cael ei gydnabod gan bobl anabl ac fe'i mabwysiadwyd yn ffurfiol gan Lywodraeth Cymru yn 2002. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn www.disabilitywales.org |
| **Cyfran y perchnogion/cyfarwyddwyr/ cyfranddalwyr yn y busnesau a gefnogwyd gennym, a ddarparodd ddata oedran, o dan 25 oed.** | Mae'r adran hon yn gofyn i gwsmeriaid roi gwybod am nifer y perchnogion/cyfarwyddwyr/cyfranddalwyr o fewn y cromfachau oedran penodol. Y cromfachau oedran penodol yw Oedran 0-24, Oedran 25-44, Oedran 45-64, Oedran 65-74 ac Oedran 75+ |
| **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru** | Yn 2023/24, gan ddefnyddio codau post ein busnesau buddsoddedig, fe wnaethom baru lleoliadau ein buddsoddiadau â lefelau Ardal Allbwn Ehangach Is. Galluogodd hyn ddadansoddiad o'n data effaith yn erbyn parthau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn ôl degradd. Ar hyn o bryd dim ond metrigau yn erbyn y Maes Cyffredinol ac ar gyfer y degradd uchaf o amddifadedd sy'n cael eu hadrodd. |

07/04/2026